Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Swyddfa Farnwrol

# Diwygio’r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

## Ymateb i’r Ymgynghoriad ar strwythurau gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol

## Datganiad Cydraddoldeb Diwygiedig

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 4

2. Cefndir 4

3. Crynodeb o'r Cynigion Terfynol sy'n Berthnasol i Gydraddoldeb 5

4. Dull yr Asesiad 7

5. Gwahaniaethu uniongyrchol 10

6. Gwahaniaethu anuniongyrchol 10

7. Aflonyddu ac Erledigaeth 20

8. Hyrwyddo Cyfle Cyfartal 21

9. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon mewn perthynas ag anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol 22

10. Meithrin Perthnasoedd Da 23

11. Asesiad ar y Gymraeg (Crynodeb) 24

12. Casgliad 24

Atodiad: Data Amrywiaeth 25

Mae'r ddogfen hon yn nodi asesiad ar y cyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF), a'r Swyddfa Farnwrol (JO) (ar ran yr Uwch Farnwriaeth) o'r effeithiau ar gydraddoldeb sy'n deillio o'r cynigion terfynol yn dilyn yr ymgynghoriad ar *Ddiwygio Ardaloedd Cyfiawnder Lleol: Strwythurau Gweinyddol yr Ynadaeth yn y dyfodol*. Mae'n cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y cyfeirir ati wedyn fel y Ddeddf yn y ddogfen hon).

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

1. **Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon** - gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol, gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd, ac aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
2. **Hyrwyddo cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
3. **Meithrin perthynas dda** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Y nodweddion gwarchodedig a ystyriwyd yw:

- oedran
- anabledd
- rhyw
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond mewn perthynas â'r amcan cyntaf o'r Ddyletswydd Cydraddoldeb).

Mewn perthynas â'r elfen gyntaf o'r PSED, mae'r ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf yn cynnwys y canlynol.

- **Gwahaniaethu uniongyrchol** – mae hyn yn golygu trin unigolyn yn llai ffafriol "oherwydd" nodwedd warchodedig. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu drwy gysylltiad (cael eich trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig ffrind, priod, partner, rhiant neu berson arall y mae rhywun yn gysylltiedig ag ef/hi) a gwahaniaethu drwy ganfyddiad (oherwydd nodwedd warchodedig a ganfyddir nad oes gan yr unigolyn, mewn gwirionedd, o bosibl).
- **Gwahaniaethu anuniongyrchol** – mae hyn yn ymwneud â gweithredoedd, penderfyniadau neu bolisïau nad ydynt wedi'u bwriadu i drin unrhyw un yn llai ffafriol, ond sydd, yn ymarferol, yn cael yr effaith o roi grŵp o bobl â nodwedd warchodedig benodol dan anfantais. Pan fydd polisi o'r fath yn rhoi unigolyn â'r nodwedd honno dan

anfantais, bydd yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol oni bai y gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol.

- **Aflonyddu** – mae hyn yn ymddygiad annymunol sy'n ymwneud â nodwedd warchodedig berthnasol, sydd â'r diben neu'r effaith o naill ai danseilio urddas person, neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, sarhaus neu amhriodol.
- **Erledigaeth** – mae hyn yn digwydd pan fydd person yn trin person arall yn niweidiol oherwydd ei fod wedi cyflawni gweithred warchodedig neu y credir y gallai gyflawni gweithred warchodedig.

# 1. Cyflwyniad

1. Mae'r asesiad hwn yn disodli'r Datganiad Cydraddoldeb a oedd ynghlwm wrth ymgynghoriad 2025. Mae'n adlewyrchu'r newidiadau sylweddol a wnaed mewn ymateb i adborth yr ymgynghoriad, gan gynnwys tynnu cynigion i uno ffiniau yn ôl, diwygio'r disgwyliad uchafswm amser teithio rhesymol, a newidiadau strwythurol i awdurdodaethau Teulu ac Ieuenctid.

2. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael, tystiolaeth o'r ymgynghoriad, Ystadegau Amrywiaeth Farnwrol, mewnwelediadau gweithredol a hunanadrodd, gan gynnwys yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Mae'n ystyried effeithiau tebygol ar ynadon ar draws pob nodwedd warchodedig ac yn nodi'r mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori yn y model terfynol.

# 2. Cefndir

3. Ar hyn o bryd mae 75 o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs). Bydd LJAs yn cael eu diddymu pan ddaw adran 45 o Ddeddf Adolygu Barnwrol a Llysoedd 2022 i rym. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar sut y dylai trefniadau grwpio gweinyddol, arweinyddiaeth a hyfforddiant weithredu unwaith y bydd LJAs yn peidio â bodoli yn gyfreithiol.

4. Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GLITEF a'r Swyddfa Farnwrol (gan gynnwys y Coleg Barnwrol) ymgynghoriad 12 wythnos yn 2025 ar gynigion ar gyfer strwythur gweinyddol amgen i grwpio llysoedd yr ynadon, ynghyd â threfniadau dyrannu a hyfforddi ynadon.

5. Roedd y cynigion gwreiddiol yn cynnwys:
    - Creu 58 o "feinciau" gweinyddol mwy o faint (wedi'u halinio ag Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol);
    - Cyflwyno "uchafswm amser teithio rhesymol" o 90 munud;
    - Codio'r disgwyliad y gallai ynadon ddisgwyl eistedd 20–40% o'u heisteddiadau y tu allan i'w prif lys;
    - Ystyried uno Ardaloedd Panel Teulu, sef yr ardaloedd daearyddol y neilltuir ynad teulu iddynt ac o fewn y rhain y dyrennir eu heistedd llys teulu;
    - Rhesymoli sylweddol Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACs); a
    - Opsiynau ar gyfer newid cwmpas rôl Cadeirydd y Fainc.

6. Cododd yr ymatebion – fel y'u crynhoir yn yr ymateb i'r ymgynghoriad – bryderon cryf ynghylch effeithiau ar gydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â disgwyliadau teithio, colli hunaniaeth leol, effeithiau ar ddarpariaeth y Gymraeg, effaith ar ynadon ag anableddau, a risgiau i recriwtio a chadw ynadon.

7. O ganlyniad, rydym wedi diwygio ein dull. Mae'r model terfynol yn blaenoriaethu parhad, hunaniaeth leol a hyblygrwydd.

8. Yn dilyn dadansoddi'r ymatebion, rydym wedi diweddaru'r asesiad o'r effaith ar nodweddion gwarchodedig. Gellir gweld y Datganiad Cydraddoldeb gwreiddiol yma: https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

# 3. Crynodeb o'r Cynigion Terfynol sy'n Berthnasol i Gydraddoldeb

9. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn gweithredu pecyn sy'n cynnal hunaniaeth leol, yn cefnogi hygyrchedd, ac yn sicrhau y gall ynadon gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Rydym yn asesu bod effaith gyffredinol y model terfynol hwn ar gydraddoldeb yn isel ac yn hylaw, gyda'r potensial ar gyfer unrhyw effeithiau i gael eu lliniaru drwy brosesau barnwrol presennol a phrosesau GLITEF:

## Cadw'r 75 o ffiniau daearyddol presennol

10. Bydd meinciau gweinyddol yn parhau i gyd-fynd â'r 75 o ardaloedd daearyddol presennol. Mae hyn yn cynnal strwythurau cymorth cyfarwydd a hunaniaeth leol, gan ddarparu parhad i ynadon ar draws pob nodwedd warchodedig.

11. Mae cadw'r ffiniau presennol yn cefnogi patrymau teithio rhagweladwy, yn diogelu mynediad at adeiladau llysoedd cyfarwydd a hygyrch, ac yn cynnal rhwydweithiau cymheiriaid sefydledig. Mae hyn yn darparu sefydlogrwydd i ynadon â chyfrifoldebau gofalu, ynadon anabl, ynadon hŷn ac eraill a allai elwa o drefniadau sy'n seiliedig yn lleol.

## Disgwyliad uchafswm amser teithio rhesymol

12. Yn gyffredinol, ni ofynnir i ynadon deithio mwy na 60 munud o'u prif lys ar gyfer eisteddiad. Gall teithio y tu hwnt i hyn ddigwydd lle bo hynny'n angenrheidiol o

safbwynt gweithredol ac â chytundeb yr ynad unigol, gan adlewyrchu'r arfer presennol.

13. Mae'r dull wedi'i ddiweddaru yn darparu disgwyliad teithio clir a hylaw ac yn galluogi addasiadau rhesymol i gael eu gwneud lle bo angen, gan sicrhau bod trefniadau'n parhau'n hygyrch i ynadon ag anableddau, cyflyrau iechyd, anghenion sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd, neu gyfrifoldebau gofalu.

## Disgwyliadau dyrannu

14. Er y bydd neilltuo i brif lys yn mynd rhagddo, ni fydd gofyniad canrannol sefydlog ar gyfer eistedd y tu allan i'r prif lys, ac ni fydd ynadon fel arfer yn gorfod teithio ymhellach i eistedd nag y maent o dan y trefniadau presennol. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, bydd eistedd ar draws llysoedd yn parhau i gael ei ddefnyddio'n hyblyg ac ar sail cytundeb, gan ganiatáu i Gadeiryddion Meinciau ystyried amgylchiadau unigol, addasiadau rhesymol a chyfyngiadau personol.

## Ffiniau Paneli Teulu ac Ieuenctid

15. Bydd ffiniau presennol Paneli Teulu ac Ieuenctid yn aros yn ddigyfnewid. Mae hyn yn cadw gwybodaeth leol arbenigol, yn cefnogi perthnasoedd cyson â phartneriaid diogelu a CAFCASS, ac yn cynnal rhagweladwyedd mewn patrymau eistedd.

16. Mae cadw'r ffiniau hyn yn cefnogi parhad i ynadon sy'n gweithio gyda defnyddwyr agored i niwed ac yn osgoi baich teithio diangen, yn enwedig i ynadon â chyfrifoldebau gofalu neu'r rhai sy'n dibynnu ar drefniadau cymorth lleol sefydledig.

## Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACs)

17. Ni fydd unrhyw gydgrynhoi gorfodol o bwyllgorau. Gall rhanbarthau archwilio addasiadau lleol yn unig lle bo hynny'n fuddiol ac â chefnogaeth.

18. Mae cynnal y strwythurau presennol yn hyrwyddo gwybodaeth leol am anghenion hyfforddi a chymorth ynadon ac yn osgoi creu galwadau teithio neu weinyddol ychwanegol ar aelodau pwyllgor, gan gynnwys y rhai ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu.

## Arweinyddiaeth Mainc

19. Bydd y rôl unigol Cadeirydd Mainc yn cael ei chadw. Bydd Cadeiryddion Meinciau yn parhau i gael eu cefnogi gan Ddirprwy Gadeiryddion lle bo angen i sicrhau capasiti arweinyddiaeth digonol, a bydd defnydd gwell o Ddirprwy Gadeiryddion yn cael ei annog.

*20.* Mae'r strwythur hwn yn darparu eglurder o ran cyfrifoldeb bugeiliol ac yn cefnogi gofal bugeiliol ymatebol a phersonol, gan gynnwys ar gyfer y rhai sydd angen dyrannu hyblyg, addasiadau rhesymol neu gymorth llesiant. Mae cyfleoedd i Ddirprwy Gadeiryddion yn helpu i ehangu cyfranogiad arweinyddiaeth ac yn gallu cefnogi amrywiaeth o fewn rolau arweinyddiaeth.

## Effeithiau ar y Gymraeg

21. Bydd ffiniau meinciau Cymru yn aros yn ddigyfnewid, ac mae Asesiad o Effaith llawn ar y Gymraeg wedi'i gynnal a'i gyhoeddi.

22. Bydd ynadon Cymraeg yn cadw'r gallu i eistedd mewn llysoedd Cymraeg, gan gefnogi hawliau ieithyddol a chynnal y gallu i ddarparu gwrandawiadau drwy gyfrwng ynadon Cymraeg. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn sicrhau bod y pecyn terfynol yn darparu sefydlogrwydd, yn cefnogi hygyrchedd, ac yn cynnal hunaniaeth leol gadarn, tra'n sicrhau bod unrhyw effeithiau yn isel ac yn hylaw o fewn fframweithiau presennol.

# 4. Dull yr Asesiad

23. Gan fod yr ymgynghoriad hwn wedi canolbwyntio ar effeithiau diddymu LJAs ar recriwtio, dyrannu, hyfforddi ac arweinyddiaeth ynadon, y prif ystyriaeth wrth asesu effeithiau ar gydraddoldeb yw'r effaith ar ynadon eu hunain. Mae'r cynigion diwygiedig yn ymwneud yn unig â'r trefniadau gweinyddol mewnol a fydd yn gymwys ar ôl diddymu LJAs, ac nid ydynt yn effeithio ar ble y rhestrir neu y gwrandewir achosion, gan y bydd arfer rhestru yn parhau i flaenoriaethu agosrwydd ac angen gweithredol. Felly, ni fydd defnyddwyr llysoedd yn profi unrhyw newid o ganlyniad i'r cynigion hyn, ac nid ydynt wedi'u cynnwys o fewn cwmpas yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb hwn.

24. Rydym wedi asesu a yw unrhyw un o'r cynigion yn debygol o arwain at wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, gan gynnwys gwahaniaethu sy'n deillio o

anabledd, yn ogystal ag unrhyw risgiau o aflonyddu neu erledigaeth. Rydym hefyd wedi ystyried a allai'r cynigion helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, ac a allent feithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

25. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o sut y mae ynadon â nodweddion gwarchodedig yn debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, ac mae'n tynnu ar:
    - adborth yr ymgynghoriad;
    - ystadegau Amrywiaeth Farnwrol sydd ar gael;
    - mewnwelediadau gweithredol gan GLITEF a JO;
    - Datganiadau Cydraddoldeb blaenorol;
    - tystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

26. Rydym wedi defnyddio'r data sydd ar gael i ni ar nodweddion gwarchodedig yr ynadaeth (gweler yr atodiad). Defnyddiwyd y data hwn i asesu faint o unigolion a allai gael eu heffeithio os yw rhai cynigion diwygiedig yn ymddangos yn fwy tebygol o roi anfantais i'r rhai â nodweddion gwarchodedig.

27. Lle mae data'n gyfyngedig (e.e. ar groestoriadedd neu nodweddion gwarchodedig nad ydynt yn cael eu cofnodi'n rheolaidd), mae rhagdybiaethau'n seiliedig ar batrymau hysbys yn yr ynadaeth (e.e. dosbarthiad oedran, cyfrifoldebau gofalu, a chyffredinrwydd anabledd).

## Dyrannu

28. O dan y dull diwygiedig, bydd ynadon yn parhau i eistedd yn bennaf yn eu prif lys, gydag eisteddiadau achlysurol mewn llysoedd eraill lle bo hynny'n ofynnol yn weithredol ac wedi'i gytuno gyda'r unigolyn. Bydd disgwyliadau teithio yn parhau'n fras yn unol â'r arfer presennol: ni ddisgwylir fel arfer i ynadon deithio mwy na 60 munud ar gyfer eisteddiad, a bydd unrhyw deithiau hirach yn cael eu trefnu dim ond lle bo angen ac â chaniatâd yr ynad. Bydd unrhyw deithiau hirach yn destun craffu pellach ac yn gofyn am gyfiawnhad clir ar sail angen busnes.

### Asesiad o Effaith

29. Mae'r dull hwn yn darparu trefniadau teithio rhagweladwy a hylaw i ynadon ar draws pob grŵp gwarchodedig. Mae'n parhau'n gydnaws ag arferion dyrannu hyblyg presennol ac nid yw'n cyflwyno beichiau teithio newydd. Bydd anghenion teithio yn parhau i gael eu rheoli'n lleol, gan alluogi Cadeiryddion Meinciau a staff GLITEF i ymateb i amgylchiadau personol, megis anabledd, cyflyrau iechyd, beichiogrwydd a chyfrifoldebau gofalu, drwy addasiadau rhesymol a phatrymau dyrannu wedi'u teilwra.

**Mesurau Lliniaru**

30. Bydd trefniadau presennol yn parhau i gefnogi ynadon sydd angen hyblygrwydd, gan gynnwys:
    - addasiadau i leoliadau eistedd;
    - cyfyngu dyrannu i lys neu lysoedd penodol;
    - oriau neu batrymau eistedd wedi'u teilwra lle bo angen.

Mae'r arferion hyn eisoes wedi'u sefydlu ac disgwylir iddynt barhau ar gael lle bo'n briodol.

## Arweinyddiaeth

31. Bydd arweinyddiaeth yn parhau i ganolbwyntio ar un Cadeirydd Mainc (BC) ar gyfer pob mainc, wedi'i gefnogi gan Ddirprwy Gadeiryddion Meinciau, gyda disgrifiadau rôl cliriach a dirprwyo cryfach i Ddirprwy Gadeiryddion. Bwriedir i'r dull hwn gadw arweinyddiaeth yn hylaw wrth i feinciau barhau i recriwtio ac wrth i faint a gweithgarwch yr ynadaeth dyfu.

32. Mae tystiolaeth anecdotaidd o adborth gweithredol yn nodi bod rolau BC eisoes yn cynnwys portffolio sylweddol (llywodraethu, cymorth bugeiliol, ymgysylltu â GLITEF/JO, goruchwylio dyrannu). Rydym hefyd yn rhagweld y gall cynnydd yn nifer yr ynadon a gweithgareddau parhaus i wella'r system gynyddu galw cyffredinol ar arweinyddiaeth dros amser. Mae'r dull diwygiedig yn canolbwyntio ar ddarparu eglurder i'r rôl a gwella dirprwyo i gynnal capasiti arweinyddiaeth ar draws cyd-destunau lleol gwahanol. Nid yw'n rhagfarnu manteision strwythurau arweinyddiaeth amgen (e.e. rhannu'r rôl) y gellid eu hystyried yn y dyfodol os oes angen.

**Asesiad o Effaith**

33. Mae cadw un BC wedi'i gefnogi gan ddirprwy gadeiryddion yn darparu parhad ac eglurder atebolrwydd, tra bod defnydd cryfach o Ddirprwy Gadeiryddion yn cynyddu capasiti a hyblygrwydd arweinyddiaeth. Disgwylir y bydd hyn yn annog cyfranogiad gan ynadon a allai fod angen hyblygrwydd oherwydd anabledd, beichiogrwydd, cyflyrau iechyd, cyfrifoldebau gofalu neu batrymau gwaith, heb greu rhwystrau newydd. Nid ydym yn dal data amrywiaeth canolog ar ymgeiswyr arweinyddiaeth neu ddeiliaid swydd; fodd bynnag, disgwylir y bydd y cyfuniad o ddisgwyliadau rôl cliriach a dirprwyo strwythuredig yn cael effaith cydraddoldeb isel a hylaw ac y gallai ehangu'r gronfa bosibl o ymgeiswyr drwy wneud ymrwymiadau amser yn fwy rhagweladwy.

**Mesurau Lliniaru**

34. Nid oes angen mesurau lliniaru ychwanegol y tu hwnt i'r trefniadau presennol. Er mwyn sicrhau hygyrchedd a chyfranogiad ar draws grwpiau gwarchodedig, bydd timau arweinyddiaeth yn parhau i:

- defnyddio gorchudd dirprwy gadeiryddion a rhannu tasgau i gydbwyso cyfnodau brig;
- cymhwyso addasiadau rhesymol ar gyfer dyletswyddau arweinyddiaeth lle bo'n briodol (e.e. fformat cyfarfodydd, amseru, cyfranogiad o bell);
- adolygu disgrifiadau rôl yn barhaus i gynnal cymesuredd a thryloywder disgwyliadau.

## Hyfforddiant

35. Gan nad yw'r cynigion terfynol bellach yn cynnwys cydgrynhoi gorfodol TAAACs ac yn ceisio lleihad drwy gytundeb gyda meysydd unigol yn unig lle bo'n ddymunol, nid oes effaith ar gydraddoldeb o ganlyniad i'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

# 5. Gwahaniaethu uniongyrchol

36. Ein hasesiad yw nad yw'r cynigion diwygiedig yn uniongyrchol wahaniaethol. Nid ydynt yn trin unrhyw unigolyn yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig, gan fod y cynigion yn gymwys yn gyfartal i bob ynad. Felly, rydym yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw wahaniaethu uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

# 6. Gwahaniaethu anuniongyrchol

37. Ein hasesiad wedi'i ddiweddaru yw'r ffaith nad yw'r trefniadau diwygiedig i ddisodli Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn debygol o arwain at wahaniaethu anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

38. Wrth asesu gwahaniaethu anuniongyrchol posibl, rydym wedi ystyried a allai unrhyw elfen o'r cynigion roi ynadon â nodweddion gwarchodedig dan anfantais, gan gynnwys lle:
    a. gallai polisi roi ynadon yn gyffredinol dan anfantais, ac y gallai'r grŵp yr effeithir arno gynnwys cyfran uwch o bobl â nodwedd warchodedig nag yn yr ynadaeth yn gyffredinol; neu
    b. gallai polisi, yn anfwriadol, roi ynadon â nodweddion gwarchodedig penodol dan anfantais oherwydd y nodweddion hynny.

## 6.1 Gwahaniaethu anuniongyrchol lle gallai polisi roi unrhyw un a effeithir arno dan anfantais, ac mae cyfran uwch o bobl â nodwedd warchodedig benodol yn y boblogaeth yr effeithir arni na'r boblogaeth ehangach

39. Fel y nodwyd uchod, mae'r cynigion diwygiedig wedi'u dylunio'n fwriadol i leihau newidiadau i rolau ynadon a'u disgwyliadau eistedd. Mae tynnu'r meinciau mwy arfaethedig yn ôl, dileu'r disgwyliad uchafswm amser teithio rhesymol o 90 munud, a chadw'r ffiniau presennol ar gyfer Teulu ac Ieuenctid yn golygu y bydd y rhan fwyaf o ynadon yn parhau i eistedd lle maent ar hyn o bryd, ac y bydd patrymau teithio arferol yn parhau'n fras heb newid. Yr unig amgylchiadau lle gallai fod risg o anfantais yw mewn achosion unigol lle mae ynadon yn cytuno i eistedd y tu allan i'w prif lys, neu lle gall aelodau TAAACs orfod teithio ymhellach i fynychu cyfarfodydd. Yn y senarios cyfyngedig hyn, mae posibilrwydd bach o hyd y gallai rhai ynadon â nodweddion gwarchodedig wynebu teithiau mwy heriol; fodd bynnag, disgwylir i'r achosion hyn fod yn brin ac yn hylaw drwy brosesau addasiadau rhesymol presennol.

40. Gan nad yw'r model diwygiedig bellach yn cynnwys canrannau dyrannu sefydlog, ffiniau meinciau estynedig na disgwyliad uchafswm amser teithio rhesymol, ni allwn ragweld yn sicr pa ynadon – os o gwbl – a allai orfod teithio ymhellach o bryd i'w gilydd, ac nid ydym yn dal data amrywiaeth ar gyfer is-set o'r fath. Am y rheswm hwn, nid yw'n bosibl asesu a fyddai unrhyw anfantais weddilliol yn effeithio'n anghymesur ar ynadon â nodweddion gwarchodedig o gymharu â'r ynadaeth ehangach. Fodd bynnag, gan fod disgwyliadau teithio yn adlewyrchu'r arfer presennol, ac y bydd unrhyw eithriadau yn gofyn am gytundeb unigol, mae'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol sy'n deillio o effeithiau teithio gwahaniaethol bellach yn sylweddol is nag o dan y cynigion gwreiddiol.

## 6.2 Gwahaniaethu anuniongyrchol lle gallai polisi, yn anfwriadol, roi rhywun â nodwedd warchodedig dan anfantais oherwydd y nodwedd honno

41. Rydym wedi asesu bod ynadon yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu na'r boblogaeth gyffredinol, gan fod yr ynadaeth yn cynnwys cyfran gymharol uwch o fenywod a menywod hŷn (gweler yr atodiad). Felly, rydym wedi ystyried a allai'r cynigion diwygiedig roi ynadon â chyfrifoldebau gofalu dan anfantais, ac a allai unrhyw agwedd ar y model terfynol roi menywod, gan gynnwys menywod hŷn, dan

anfantais anuniongyrchol o ganlyniad. Rydym hefyd wedi ystyried a allai'r cynigion roi ynadon â nodweddion gwarchodedig eraill dan anfantais yn anfwriadol.

42. Rydym yn cydnabod y gallai rhai ynadon feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig, a allai mewn rhai amgylchiadau roi unigolion dan anfantais benodol. Fodd bynnag, mae'r cynigion diwygiedig yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd o effeithiau o'r fath, gan fod y newidiadau mwyaf canlyniadol – megis uno ardaloedd meinciau – wedi'u tynnu'n ôl. Nid ydym ar hyn o bryd yn dal data a fyddai'n ein galluogi i ddadansoddi croestoriadedd o fewn yr ynadaeth yn fanwl. Felly, y tu hwnt i ystyried effeithiau posibl sy'n deillio o orgyffwrdd rhwng rhyw ac oedran, rydym wedi asesu risgiau ehangach lle gallai cyfuniadau o nodweddion arwain at effeithiau cyfansawdd. O dan y model diwygiedig, disgwylir bellach i unrhyw risgiau o'r fath fod yn gyfyngedig ac yn rhai y gellir eu rheoli drwy brosesau addasiadau rhesymol a threfniadau dyrannu hyblyg presennol.

## 6.2.a. Gwahaniaethu anuniongyrchol yn y system meinciau (strwythur amgen ar gyfer grwpio llysoedd yr ynadon)

43. Mae'r penderfyniad i beidio â chyflwyno meinciau gweinyddol mwy o faint yn golygu y bydd creu strwythurau meinciau newydd yn cael goblygiadau cydraddoldeb cyfyngedig iawn. O dan y model terfynol, bydd y 75 o ffiniau daearyddol presennol yn cael eu cadw a'u defnyddio'n uniongyrchol fel y fframwaith gweinyddol; bydd gan ynadon lys cartref penodedig; a bydd disgwyliadau teithio yn parhau yn unol â'r arfer presennol, gyda disgwyl fel arfer na fydd ynadon yn teithio mwy na 60 munud wrth eistedd mewn mannau eraill. Mae'r trefniadau hyn yn gymwys i bob ynad, ond gallant gael effaith ymarferol fwy ar rai unigolion. Rydym yn asesu bod unrhyw effeithiau o'r fath yn hylaw o fewn prosesau presennol GLITEF. O ganlyniad, bydd ynadon yn parhau i gael eu recriwtio, eu dyrannu, eu hyfforddi a'u cefnogi o fewn strwythurau lleol cyfarwydd.

## 6.2.b. Gwahaniaethu anuniongyrchol mewn recriwtio ynadon

44. Ein hasesiad wedi'i ddiweddaru yw nad yw'r cynigion diwygiedig sy'n ymwneud â recriwtio yn debygol o arwain at wahaniaethu anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw'r model terfynol yn cyflwyno unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y mae unigolion yn gwneud cais i ddod yn ynadon nac i'r modd y mae Pwyllgorau Ymgynghorol yn rheoli prosesau recriwtio.

## 6.2.c. Gwahaniaethu anuniongyrchol mewn dyrannu ynadon

45. Er bod y cynigion diwygiedig yn golygu y bydd y rhan fwyaf o ynadon yn parhau i eistedd o fewn yr un grŵp o lysoedd ag y maent ar hyn o bryd, mae'n parhau'n bosibl y gallai gofyn i ynadon eistedd mewn llys cyfagos arall o fewn eu ffin bresennol neu, o bryd i'w gilydd, y tu allan i'w ffin. Yn yr achosion cyfyngedig hyn, gall rhai ynadon â nodweddion gwarchodedig gael trafferthion gyda theithiau hirach neu fwy cymhleth. Mae'r adrannau isod yn ystyried sut y gallai'r trefniadau dyrannu diwygiedig effeithio ar ynadon â nodweddion gwarchodedig penodol, gan nodi bod y risgiau mwyaf arwyddocaol a nodwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol bellach wedi'u lliniaru neu'u dileu.

## Oedran

**Asesiad o Effaith**

46. Er bod y trefniadau diwygiedig yn cadw pob un o'r 75 o ffiniau daearyddol ac yn cynnal patrymau teithio yn fras yn unol â'r arfer presennol, gall rhai ynadon hŷn barhau i wynebu heriau lle mae hygyrchedd yn amrywio rhwng llysoedd neu lle mae teithio achlysurol, ar sail cytundeb, y tu allan i'w prif lys yn fwy anodd oherwydd ystyriaethau sy'n ymwneud â symudedd, iechyd neu drafnidiaeth sy'n gysylltiedig ag oedran.

**Mesurau Lliniaru**

47. Bydd unrhyw deithio y tu allan i'r prif lys ar sail cytundeb yn unig, gan alluogi ynadon i wrthod teithiau nad ydynt yn addas i'w hanghenion. Bydd addasiadau rhesymol sefydledig, gan gynnwys dyrannu i lys neu lysoedd hygyrch penodol, amserlennu hyblyg, a phenderfyniadau dyrannu cefnogol, yn parhau i sicrhau nad yw ynadon hŷn yn cael eu rhoi dan anfantais.

## Rhyw (gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu)

**Asesiad o Effaith**

48. Mae menywod, ac yn enwedig ynadon benywaidd hŷn, yn fwy tebygol yn ystadegol o fod â chyfrifoldebau gofalu. Er na fydd y rhan fwyaf o ynadon yn profi newid o dan y model terfynol, gall y rhai â dyletswyddau gofalu gael eu heffeithio'n fwy gan unrhyw deithio achlysurol y tu allan i'r prif lys neu gan amrywiad mewn arferion dyrannu lleol, gan y gall trefniadau rhagweladwy fod yn bwysig wrth gydbwyso gwaith, gofal ac ymrwymiadau gwirfoddol.

49. Gall amrywiad lleol yn amlder gwahodd ynadon i eistedd y tu allan i'w prif lys hefyd gael effaith fwy ar fenywod sy'n dibynnu ar batrymau eistedd cyson i reoli cyfrifoldebau ehangach.

**Mesurau Lliniaru**

50. Mae'r model terfynol yn seiliedig ar ddyrannu hyblyg ar sail cytundeb, sy'n caniatáu i ynadon â chyfrifoldebau gofalu gyfyngu ar deithio neu wrthod teithiau. Bydd Cadeiryddion Meinciau a Dirprwy Gadeiryddion yn parhau i ystyried cyfrifoldebau gofalu wrth ddyrannu eisteddiadau, ac mae addasiadau rhesymol – gan gynnwys eistedd yn gyfan gwbl yn y prif lys lle bo angen – ar gael ac eisoes yn cael eu cymhwyso'n rheolaidd.

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

**Asesiad o Effaith**

51. Gan fod y ffiniau'n cael eu cadw ac nad oes newidiadau strwythurol yn cael eu gwneud i ganiatáu dyrannu i lysoedd cyfagos ar draws ardaloedd wedi'u huno, mae llai o gwmpas i neilltuo ynadon beichiog i lysoedd cyfagos amgen a allai gynnig cyfleusterau gwell neu fynediad haws. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw gyfyngiadau mewn cyfleusterau o fewn stad bresennol y llysoedd lleol barhau, er y gellir parhau i'w rheoli drwy addasiadau rhesymol a threfniadau dyrannu hyblyg.

52. Yn ogystal, gan fod y model arweinyddiaeth yn aros yr un fath – heb rannu rôl Cadeirydd y Fainc yn swyddogaethau bugeiliol a busnes ar wahân – gall capasiti bugeiliol barhau i fod dan bwysau, a allai effeithio ar ba mor brydlon a chyson y caiff anghenion sy'n ymwneud â beichiogrwydd eu nodi a'u cefnogi. Dylai defnydd gwell o Ddirprwy Gadeiryddion Meinciau helpu, ond gall rhywfaint o amrywiad barhau.

**Mesurau Lliniaru**

53. Nid yw teithio y tu allan i'r prif lys yn ofynnol a rhaid iddo gael ei gytuno'n unigol. Lle mae angen trefniadau eistedd rhagweladwy ar ynadon beichiog, gellir eu neilltuo'n gyfan gwbl i'w prif lys neu i lys neu lysoedd penodol â chyfleusterau priodol. Mae addasiadau rhesymol – gan gynnwys patrymau eistedd wedi'u haddasu a chyfyngiadau ar sail lleoliad – ar gael, gyda chefnogaeth Cadeiryddion Meinciau a Dirprwy Gadeiryddion sy'n rhannu cyfrifoldebau bugeiliol.

## Anabledd

**Asesiad o Effaith**

54. Gall ynadon anabl barhau i wynebu heriau lle caiff teithio achlysurol i lys arall ei drefnu ar sail cytundeb, neu lle mae hygyrchedd adeiladau llysoedd unigol yn

amrywio. Gan fod y cynigion diwygiedig yn cadw'r holl ffiniau daearyddol presennol ac nad ydynt yn cynyddu disgwyliadau teithio arferol, dylai'r rhan fwyaf o ynadon anabl barhau i eistedd mewn llysoedd y maent eisoes yn eu hadnabod ac yn gallu eu defnyddio. Fodd bynnag, ar gyfer lleiafrif bach o ynadon sy'n cytuno i eistedd y tu allan i'w prif lys, gall yr amrywiad parhaus mewn hygyrchedd ar draws yr ystad barhau i beri anawsterau, yn enwedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn neu'r rhai â phroblemau symudedd neu namau synhwyraidd.

55. Gall dileu terfyn teithio ffurfiol hefyd greu rhywfaint o ansicrwydd i ynadon anabl sy'n dibynnu ar deithiau rhagweladwy a hylaw. Er bod y model diwygiedig yn atgyfnerthu na ddylai teithio y tu allan i'r prif lys fel arfer fod yn fwy na 60 munud ac y dylai gael ei gytuno'n unigol, gall absenoldeb cap wedi'i godio adael rhai ynadon anabl yn teimlo'n llai diogel, yn enwedig lle maent yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus neu lle mae ganddynt gyflyrau iechyd sy'n cael eu heffeithio gan amser teithio, blinder neu natur y daith.

56. Mae gweithredu lleol trefniadau dyrannu yn parhau'n ffactor allweddol. Er bod dyrannu bellach yn seiliedig yn benodol ar gytundeb ac arfer hyblyg, gall amrywiad rhwng meinciau yn y ffordd y defnyddir hyblygrwydd o'r fath arwain at brofiadau anghyson i ynadon anabl. Gan fod addasiadau'n parhau i gael eu trefnu'n lleol, mae'r potensial ar gyfer arfer anghyfartal yn parhau, er bod hyn wedi'i liniaru drwy dynnu'r cynigion mwy tarfol a ymgynghorwyd arnynt yn ôl.

57. Yn olaf, gan fod y cynnig i gydgrynhoi TAAACs wedi'i dynnu'n ôl, gall gwahaniaethau rhanbarthol mewn strwythurau hyfforddi, gwerthuso a chymorth ar gyfer ynadon anabl barhau. Mae cadw pwyllgorau lleol yn cynnal cynefindra a gwybodaeth leol, ond mae hefyd yn golygu y gall ansawdd a maint y cymorth sy'n ymwneud ag addasiadau rhesymol amrywio rhwng rhanbarthau.

### Mesurau Lliniaru

58. Bydd addasiadau rhesymol – gan gynnwys dyrannu i lysoedd hygyrch yn unig, cyfyngu i eistedd yn y prif lys, ac amserlennu wedi'i deilwra – yn parhau i sicrhau nad yw ynadon anabl yn cael eu rhoi dan anfantais. Mae teithio y tu allan i'r prif lys yn gofyn am gytundeb penodol, gan alluogi ynadon anabl i wrthod teithiau nad ydynt yn addas. Bydd Cadeiryddion Meinciau a staff gweithredol yn parhau i adolygu anghenion hygyrchedd fesul achos, gan sicrhau triniaeth gyfartal ar draws meinciau.

## Ailbennu Rhywedd

### Asesiad o Effaith

59. Gall ynadon sydd wedi mynd drwy ailbennu rhywedd, neu sydd angen mynediad at gyfleusterau niwtral o ran rhywedd neu gyfleusterau priodol, gael eu heffeithio lle nad

yw cyfleusterau o'r fath ar gael ym mhob adeilad llys. Gan fod y cynigion diwygiedig yn cadw'r holl ffiniau daearyddol presennol ac nad ydynt yn ehangu'r ystod o lysoedd y gellir dyrannu ynadon iddynt, mae cyfleoedd cyfyngedig i neilltuo ynadon i lysoedd amgen a allai gynnig cyfleusterau mwy addas.

60. Yn y nifer fach o achosion lle mae ynadon yn cytuno i eistedd mewn llys gwahanol, gall rhai felly ddod ar draws adeiladau heb doiledau niwtral o ran rhywedd neu gyfleusterau eraill y maent yn dibynnu arnynt. Nid ydym ar hyn o bryd yn dal data canolog ar ba lysoedd sydd â chyfleusterau o'r fath.

**Mesurau Lliniaru**

61. Bydd y rhan fwyaf o ynadon yn parhau i eistedd yn bennaf yn eu prif lysoedd cyfarwydd. Ar gyfer y lleiafrif sydd angen cyfleusterau penodol, gellir cyfyngu dyrannu i lysoedd priodol drwy addasiadau rhesymol, a bydd teithio i leoedd eraill yn cael ei wneud yn unig gyda chytundeb yr ynad.

## Crefydd neu Gred

**Asesiad o Effaith**

62. Gall ynadon sy'n dilyn crefydd neu gred benodol fod angen mynediad at le gweddi neu gyfleusterau sy'n briodol i'w ffydd wrth fynychu'r llys. O dan y cynigion diwygiedig, sy'n cadw'r holl ffiniau daearyddol presennol ac nad ydynt yn ehangu'r ardaloedd y mae ynadon yn eistedd ynddynt, mae cyfleoedd cyfyngedig i neilltuo ynadon i lysoedd amgen a allai gynnig cyfleusterau mwy addas. O ganlyniad, gall lleiafrif bach o ynadon sy'n cytuno'n achlysurol i eistedd mewn llys gwahanol ddod ar draws adeiladau nad ydynt yn darparu'r lle gweddi neu'r cyfleusterau y maent yn eu hangen. Nid ydym ar hyn o bryd yn dal data canolog ar ba lysoedd o fewn y stad sydd â chyfleusterau o'r fath, ac felly ni allwn asesu maint yr amrywiad hwn.

**Mesurau Lliniaru**

63. Mae addasiadau rhesymol yn caniatáu i ynadon gael eu dyrannu i lysoedd sy'n diwallu eu hanghenion crefyddol neu i gyfyngu teithio i'w prif lys lle mae cyfleusterau addas ar gael. Dim ond gyda chydsyniad yr ynad y bydd teithio y tu hwnt i'r prif lys yn digwydd.

## Hil a Chyfeiriadedd Rhywiol

**Asesiad o Effaith**

64. Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu y bydd y trefniadau dyrannu diwygiedig yn rhoi ynadon dan anfantais ar sail hil neu gyfeiriadedd rhywiol. Gan fod y cynigion terfynol yn cadw'r ffiniau daearyddol presennol ac yn cynnal disgwyliadau teithio yn

fras heb newid, ni nodwyd unrhyw risgiau sylweddol i ynadon â'r nodweddion gwarchodedig hyn.

65. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall amrywiadau strwythurol rhwng rhanbarthau barhau, yn enwedig mewn perthynas â chymorth lleol, ansawdd hyfforddiant a chapasiti bugeiliol. Mae'r penderfyniad i beidio â chydgrynhoi TAAACs ar lefel genedlaethol yn cadw manteision gwybodaeth leol, ond mae hefyd yn golygu y gall arfer anghyfartal rhwng rhanbarthau barhau, a allai effeithio'n anuniongyrchol ar ynadon o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig lle mae strwythurau cymorth cryf a chyson yn arbennig o bwysig.

### Mesurau Lliniaru

66. Mae cadw'r strwythurau lleol yn diogelu rhwydweithiau cymorth presennol, a bydd Cadeiryddion Meinciau a Dirprwy Gadeiryddion yn parhau i sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu hystyried. Bydd GLITEF yn monitro am unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiau anghymesur.

## Ynadon â mwy nag un nodwedd warchodedig

### Asesiad o Effaith

67. Mae'n bwysig cydnabod y gall rhai ynadon fod mewn perygl o anfantais oherwydd eu bod yn meddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig, ac y gall y nodweddion hyn ryngweithio mewn ffyrdd sy'n cyfuno effeithiau posibl. Er enghraifft, gall ynad sy'n feichiog ac yn anabl ar yr un pryd gael mwy o anhawster gyda theithio achlysurol y tu allan i'w prif lys na ynad sydd â dim ond un o'r nodweddion hynny.

### Mesurau Lliniaru

68. Mae'r model terfynol yn cadw dyrannu'n hyblyg ac ar sail cytundeb, gan alluogi ynadon â nodweddion croestoriadol i gyfyngu ar deithio neu eistedd yn gyfan gwbl yn eu prif lys. Mae addasiadau rhesymol yn parhau ar gael i deilwra trefniadau i amgylchiadau unigol.

## Casgliad ar Fesurau Lliniaru

69. Mae'r cynigion diwygiedig wedi'u cynllunio i sicrhau bod y rhan fwyaf o ynadon yn parhau i eistedd yn yr un llysoedd ag y maent ar hyn o bryd ac nad oes gofyn iddynt deithio'n sylweddol ymhellach nag o dan y trefniadau presennol. Mae cadw'r 75 o ffiniau presennol, diwygio'r disgwyliad teithio rhesymol, a chadw dyrannu'n hyblyg ac ar sail cytundeb unigol yn golygu na fydd y mwyafrif o ynadon yn profi newid i'w patrymau teithio neu'u disgwyliadau eistedd arferol.

70. O ganlyniad, mae'r risg gyffredinol o wahaniaethu anuniongyrchol bellach yn isel. Fodd bynnag, ar gyfer ynadon a allai eistedd mewn llys cyfagos arall, mae posibilrwydd y gallai'r rhai â nodweddion gwarchodedig penodol gael eu rhoi dan anfantais—er enghraifft, oherwydd cyfyngiadau teithio, anghenion hygyrchedd, gofynion sy'n ymwneud â beichiogrwydd neu fwydo ar y fron, neu gyfrifoldebau gofalu. Er mwyn lliniaru hyn, bydd GLITEF yn parhau i sicrhau bod addasiadau rhesymol a threfniadau eistedd hyblyg ar gael fel bod amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried yn briodol.

71. Gall yr addasiadau hyn gynnwys neilltuo ynadon i lysoedd sy'n hygyrch neu'n briodol i'w hanghenion yn unig—er enghraifft, lle mae adeilad penodol yn cynnig mynediad di-gam, mannau gorffwys addas i ynadon beichiog neu sy'n bwydo ar y fron, neu gyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer y rhai sy'n ymarfer crefydd neu gred benodol. Mae'r un dull yn gymwys i ynadon sydd angen toiledau niwtral o ran rhywedd neu gyfleusterau eraill sy'n ymwneud ag ailbennu rhywedd. Lle bo angen, gall ynadon eistedd yn gyfan gwbl yn eu prif lys neu mewn set gyfyngedig o lysoedd cyfagos sy'n parhau'n ymarferol ac yn hylaw iddynt.

72. Gall addasiadau hefyd gynnwys trefniadau lle mae ynad yn cael ei gyfyngu i'w prif lys oherwydd anabledd, beichiogrwydd, cyfrifoldebau gofalu, neu nodweddion gwarchodedig eraill sy'n gwneud teithio ehangach yn amhriodol. Bydd penderfyniadau o'r fath yn parhau i gael eu gwneud fesul achos, wedi'u llywio gan amgylchiadau'r ynad a'u cefnogi gan staff gweithredol GLITEF.

73. Bydd penderfyniadau dyrannu hefyd yn ystyried hyd a natur y daith. Gall ynadon sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus gael eu neilltuo i lysoedd y gellir eu cyrraedd drwy lwybrau hygyrch a dibynadwy yn unig, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig mynediad di-gam neu seddi ar gael. Lle byddai ynadon yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan deithiau hirach neu fwy cymhleth—yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig croestoriadol—bydd GLITEF yn sicrhau bod addasiadau rhesymol neu drefniadau gwaith hyblyg yn cael eu cymhwyso i atal anfantais.

74. Mae arweinyddiaeth hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth nodi a chefnogi anghenion unigol. Bydd canllawiau wedi'u diweddaru a defnydd cynyddol o Ddirprwy Gadeiryddion Meinciau yn helpu i gryfhau goruchwyliaeth fugeiliol, gan sicrhau bod anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod addasiadau'n cael eu gweithredu'n gyson. Disgwylir i Gadeiryddion Meinciau gymryd rôl weithredol wrth sicrhau dyrannu teg ar draws eu meinciau.

75. Mae newidiadau diweddar i broses recriwtio ynadon yn golygu y gall ymgeiswyr nodi a oes angen addasiadau rhesymol arnynt ar gam cynharach. Mae hyn yn cefnogi ynadon anabl, ynadon beichiog, ac eraill â nodweddion gwarchodedig i gael yr addasiadau sydd eu hangen arnynt cyn gynted â phosibl, gan eu helpu i gyflawni eu

dyletswyddau mewn ffordd sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'u hamgylchiadau unigol.

## Asesiad cyffredinol

76. Ein hasesiad wedi'i ddiweddaru yw nad yw'r trefniadau dyrannu diwygiedig yn debygol o arwain at wahaniaethu anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae cyflwyno prif lys wedi'i ddiffinio'n glir yn gymwys yn gyfartal i bob ynad, ac mae'r disgwyliad teithio o 60 munud yn adlewyrchu'r arfer presennol. Gan fod y 75 o ffiniau daearyddol presennol yn cael eu cadw a bod trefniadau eistedd Ynadon y Llys Teulu a'r Llys Ieuenctid yn aros yn ddigyfnewid, bydd y rhan fwyaf o ynadon yn profi ychydig iawn neu ddim newid o ran ble maent yn eistedd neu pa mor aml y maent yn teithio.

77. Er bod disgwyliadau teithio yn gymwys i bawb, rydym yn cydnabod y gall rhai ynadon—megis y rhai ag anableddau, cyflyrau iechyd, cyfrifoldebau gofalu, anghenion sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd, neu fynediad cyfyngedig at drafnidiaeth—brofi teithio'n wahanol. Caiff unrhyw effeithiau andwyol posibl eu lliniaru drwy arferion presennol GLITEF, gan gynnwys dyrannu hyblyg, addasiadau i leoliadau eistedd, addasiadau rhesymol, ac eithriadau teithio ar sail cytundeb unigol. O ganlyniad, rydym yn asesu bod effaith y model terfynol ar gydraddoldeb yn isel ac yn hylaw.

## 6.2.d. Gwahaniaethu anuniongyrchol mewn arweinyddiaeth mainc

78. O dan y cynigion diwygiedig, rydym wedi penderfynu peidio â rhannu rôl Cadeirydd y Fainc ac yn hytrach cadw'r strwythur arweinyddiaeth presennol tra'n annog defnydd gwell o Ddirprwy Gadeiryddion Meinciau. Mae hyn yn golygu y bydd y fframwaith arweinyddiaeth yn parhau'n gyfarwydd i ynadon ac ni fydd yn cyflwyno beichiau newydd, gofynion teithio, na disgwyliadau rôl ychwanegol. Ar y sail hon, nid ydym yn ystyried bod y trefniadau arweinyddiaeth diwygiedig yn wahaniaethol yn anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

79. Mae'r penderfyniad i beidio â rhannu'r rôl ac yn hytrach gyflwyno canllawiau gwell a defnydd ehangach o Ddirprwy Gadeiryddion yn dileu cymhlethdod neu ddryswch posibl ynghylch goruchwyliaeth fugeiliol ac yn lleihau'r pwysau ar Gadeirydd y Fainc. Fodd bynnag, gall cadw un rôl Cadeirydd barhau i roi pwysau ar gapasiti bugeiliol, sy'n cael ei ddefnyddio'n fwy gan ynadon â rhai nodweddion gwarchodedig – yn enwedig y rhai â chyfrifoldebau gofalu, ynadon anabl, ac ynadon sy'n feichiog neu'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth. I liniaru hyn, bydd canllawiau arweinyddiaeth yn

pwysleisio nodi anghenion cymorth yn rhagweithiol, a bydd Cadeiryddion Meinciau'n cael eu hannog i ddirprwyo cyfrifoldebau'n briodol i Ddirprwy Gadeiryddion er mwyn sicrhau cymorth bugeiliol amserol.

80. Mae peidio â chyflwyno'r cynigion gwreiddiol hefyd yn dileu'r risg y gallai ailstrwythuro arweinyddiaeth fwy ffurfiol fod wedi atal ymgeiswyr o grwpiau gwarchodedig. Er bod y model diwygiedig yn cyfyngu ar gyfleoedd i ail-ddylunio rolau mewn ffyrdd a allai fod wedi cefnogi mwy o amrywiaeth, ar y cyfan, mae'r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r newidiadau gwreiddiol yn lleihau'n sylweddol y risg o wahaniaethu anuniongyrchol, a gellir mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau gweddilliol drwy ganllawiau bugeiliol cryfach a threfniadau gwaith hyblyg.

### 6.2.e. Gwahaniaethu anuniongyrchol mewn hyfforddiant a TAAACs

81. Rydym hefyd wedi penderfynu peidio â gweithredu'r cydgrynhoi arfaethedig o TAAACs. O ganlyniad, bydd llywodraethu TAAACs yn aros yn bennaf yn ddigyfnewid, ac nid oes disgwyl y bydd ynadon yn cael eu gofyn i eistedd ar draws ardaloedd daearyddol ehangach nac i deithio ymhellach at ddibenion hyfforddi. Ar y sail hon, nid yw'r cynigion diwygiedig yn debygol o arwain at wahaniaethu anuniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pe bai rhanbarthau unigol yn dymuno symud ymlaen â chydgrynhoi TAAACs yn y dyfodol, byddai unrhyw effeithiau posibl yn cael eu hasesu yn yr amgylchiadau hynny.

82. Mae cadw 45 o TAAACs yn osgoi'r anfantais bosibl a allai fod wedi codi o bwyllgorau rhanbarthol mwy – yn enwedig ar gyfer ynadon anabl, ynadon sy'n feichiog neu'n bwydo ar y fron, ac ynadon â chyfrifoldebau gofalu, y gall teithio hirach neu lai rhagweladwy fod yn fwy heriol iddynt.

# 7. Aflonyddu ac Erledigaeth

83. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y cynigion terfynol yn creu unrhyw risg o aflonyddu neu erledigaeth sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig. Nid yw unrhyw newidiadau yn effeithio ar bolisïau presennol sy'n diogelu ynadon rhag aflonyddu.

# 8. Hyrwyddo Cyfle Cyfartal

84. Rydym wedi ystyried sut y gallai'r cynigion diwygiedig effeithio ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau bod anghenion ynadon sy'n rhannu nodwedd warchodedig yn cael eu diwallu lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion ynadon nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Mae'r model terfynol – gyda'r holl 75 o ffiniau'n cael eu cadw, disgwyliadau teithio wedi'u lleihau, a dyrannu'n parhau'n hyblyg ac ar sail cytundeb – yn darparu fframwaith sefydlog a chyfarwydd sy'n cefnogi cyfle cyfartal ar draws yr ynadaeth.

85. Gan nad yw'r cynigion diwygiedig yn cyflwyno meinciau mwy, teithiau hirach na phatrymau eistedd mwy cymhleth, bydd y rhan fwyaf o ynadon yn profi dim newid i'w teithio, dyrannu llys neu ddyletswyddau o ddydd i ddydd. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn cefnogi ynadon sy'n dibynnu ar drefniadau rhagweladwy, gan gynnwys ynadon anabl, ynadon hŷn, ynadon beichiog a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu. Ar gyfer y nifer fach iawn a allai gytuno o bryd i'w gilydd i eistedd mewn llys cyfagos arall, gall GLITEF wneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu – megis cyfyngu eistedd i'r prif lys, eu dyrannu i adeiladau hygyrch yn unig, neu addasu amseroedd a phatrymau eistedd.

86. Mae cadw'r strwythurau TAAAC presennol hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy gadw systemau cymorth lleol sefydledig, a nodwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad – gan gynnwys y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol – fel rhai sy'n bwysig ar gyfer hyder, cadw a datblygu. Er y gall amrywiad rhanbarthol mewn cymorth barhau, mae'r penderfyniad i beidio â chydgrynhoi TAAACs yn osgoi'r risg o deithio cynyddol i aelodau pwyllgor ac yn sicrhau bod ynadon sydd angen mentora, adborth neu addasiadau wedi'u teilwra yn parhau i gael mynediad at arbenigedd lleol. Bydd cyfranogiad o bell neu hybrid yn parhau ar gael i sicrhau cynhwysiant llawn i ynadon ag anableddau, cyfrifoldebau gofalu, anghenion sy'n ymwneud â beichiogrwydd neu ymrwymiadau gwaith.

87. Nid ydym yn ystyried y bydd y cynigion diwygiedig sy'n ymwneud â recriwtio neu arweinyddiaeth yn effeithio'n andwyol ar y modd y mae anghenion ynadon â nodweddion gwarchodedig yn cael eu diwallu.

88. Felly, mae'r trefniadau diwygiedig yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy:
- leihau'r beichiau canfyddedig ar ynadon anabl a'r rhai â chyfrifoldebau gofal;
- cynnal hygyrchedd a hunaniaeth leol, a nodwyd gan ymatebwyr fel rhai sy'n bwysig i ynadon iau, anabl ac o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
- cadw strwythurau cymorth lleol sefydledig o fewn arweinyddiaeth a TAAACs; a

- diogelu gallu ynadon Cymraeg i eistedd yn eu dewis iaith ac mewn llysoedd â darpariaeth Gymraeg gadarn.

89. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiau ar gydraddoldeb yn ystod gweithredu, gan gynnwys drwy geisiadau am addasiadau rhesymol, adborth arweinyddiaeth, ac ymgysylltiad parhaus ag ynadon, Cymdeithas yr Ynadon (MA), Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth (MLE), a chyrff Cymraeg.

# 9. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon mewn perthynas ag anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

## Cyfleoedd i hyrwyddo amrywiaeth ymhlith ynadon

**Cynigion Arweinyddiaeth**

90. Gall y penderfyniad i beidio â rhannu rôl Cadeirydd y Fainc, ynghyd â disgwyliadau cryfach ynghylch defnyddio Dirprwy Gadeiryddion Meinciau, gael effeithiau cadarnhaol a negyddol i ynadon â nodweddion gwarchodedig. Ar yr ochr gadarnhaol, mae cadw'r rôl o fewn y ffiniau presennol yn osgoi creu model arweinyddiaeth cenedlaethol mwy heriol, a allai fod wedi atal ynadon sy'n anabl, yn feichiog, sydd â chyfrifoldebau gofalu, neu sy'n cydbwyso eistedd â chyflogaeth. Gall model arweinyddiaeth sydd wedi'i wreiddio'n fwy lleol felly barhau i fod yn fwy hygyrch i'r grwpiau hyn.

91. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i beidio â chyflwyno rhaniad ffurfiol rhwng swyddogaethau bugeiliol a busnes yn golygu y gall capasiti bugeiliol barhau i fod dan bwysau, a allai effeithio'n benodol ar ynadon sy'n dibynnu'n fwy ar gymorth bugeiliol—megis menywod â chyfrifoldebau gofalu, ynadon anabl, ynadon beichiog, a'r rhai sy'n profi gwahaniaethu. Gall defnydd cynyddol o Ddirprwy Gadeiryddion Meinciau liniaru hyn i ryw raddau a gall helpu i ehangu amrywiaeth y rhai sy'n ceisio rolau arweinyddiaeth, gan ei fod yn caniatáu rhannu llwyth gwaith ac yn annog cyfranogiad gan ynadon a allai fod wedi'u hatal gan yr ymrwymiad amser sy'n gysylltiedig â rôl arweinyddiaeth unigol.

92. Yn gyffredinol, er nad yw'r model arweinyddiaeth diwygiedig yn gweithredu newidiadau strwythurol a allai fod wedi lleihau rhwystrau i arweinyddiaeth ymhellach,

mae'r cyfuniad o ganllawiau cliriach, cyfrifoldebau wedi'u rhannu, a hunaniaeth leol a gedwir yn debygol o barhau i gefnogi ystod ehangach a mwy amrywiol o ymgeiswyr. Bydd monitro parhaus ac ymgysylltu ag ynadon yn hanfodol i ddeall a oes angen gweithredu pellach i gryfhau mynediad cyfartal at rolau arweinyddiaeth.

## Cynigion Eraill (Recriwtio, Dyrannu a Hyfforddi)

93. Drwy gynnal disgwyliadau teithio presennol a sicrhau bod ynadon yn parhau i eistedd yn bennaf mewn lleoliadau cyfarwydd a hygyrch, mae'r model dyrannu diwygiedig yn debygol o gefnogi cyfranogiad gan ynadon â nodweddion gwarchodedig – yn enwedig y rhai y mae teithiau hir neu anrhagweladwy yn creu rhwystrau iddynt, megis ynadon anabl, ynadon beichiog, a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu. Gall y sefydlogrwydd hwn helpu i ddenu a chadw ynadon o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

94. Mae'r penderfyniad i beidio â chydgrynhoi TAAACs yn cadw gwybodaeth leol werthfawr am anghenion hyfforddi, mentora a chymhwysedd ynadon, a all fod o fudd anghymesur i ynadon sydd angen cymorth wedi'i deilwra. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu y gall amrywiad rhanbarthol mewn strwythurau hyfforddi a chymorth barhau, a allai effeithio'n anuniongyrchol ar ynadon o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu'r rhai ag anableddau. Bydd opsiynau cyfranogiad rhithwir yn parhau i leihau unrhyw anfantais i'r rhai sy'n ei chael yn anodd teithio.

95. Mae trefniadau recriwtio yn aros yn bennaf heb newid, sy'n golygu nad yw'r cynigion diwygiedig yn debygol o gael effaith sylweddol – naill ai gadarnhaol na negyddol – ar amrywiaeth ynadon ar y pwynt mynediad. Fodd bynnag, gall cadw hunaniaeth leol, dros amser, helpu i wneud y rôl yn fwy deniadol i ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig a allai fod wedi'u hatal gan y diwygiadau mwy helaeth a gynigiwyd yn wreiddiol.

# 10. Meithrin Perthnasoedd Da

96. Ni nodwyd unrhyw effeithiau a fyddai'n amharu ar berthnasoedd rhwng ynadon neu rhwng ynadon a defnyddwyr llysoedd. Mae cadw'r ffiniau presennol yn cefnogi parhad diwylliant meinciau a rhwydweithiau lleol.

# 11. Asesiad ar y Gymraeg (Crynodeb)

97. Ni fydd unrhyw uno meinciau yng Nghymru yn cael ei weithredu.

98. Mae Asesiad o Effaith ar y Gymraeg llawn wedi'i gwblhau, a gellir ei weld yma: https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

99. Mae ynadon yn cadw'r hawl i eistedd mewn llysoedd Cymraeg.

100. Mae disgwyliadau teithio yn parhau'n hylaw, gan atal dadleoli ynadon Cymraeg o ardaloedd Cymraeg.

101. Nid yw'r cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac maent yn cadw cyfleoedd i weithio a gwasanaethu drwy gyfrwng y Gymraeg.

# 12. Casgliad

102. Mae'r penderfyniadau polisi terfynol a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad yn lleihau'n sylweddol y risgiau o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg a nodwyd yn wreiddiol. Mae cadw pob un o'r 75 o ffiniau, lleihau disgwyliadau teithio, parhad trefniadau Teulu ac Ieuenctid, a chryfhau cymorth i rolau arweinyddiaeth yn sicrhau bod:
    - y rhan fwyaf o ynadon yn profi dim newid sylweddol i'w patrymau eistedd;
    - y risg o wahaniaethu anuniongyrchol i grwpiau gwarchodedig yn isel;
    - mesurau lliniaru priodol yn parhau ar gael lle bo angen;
    - amrywiaeth, hygyrchedd a chynhwysiant yn yr ynadaeth yn cael eu cefnogi'n well nag o dan y cynigion gwreiddiol.

103. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiau ar gydraddoldeb yn ystod gweithredu, gan gynnwys drwy geisiadau am addasiadau rhesymol, adborth arweinyddiaeth ac ymgysylltiad parhaus ag ynadon, Cymdeithas yr Ynadon (MA), Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth (MLE) a chyrff Cymraeg.

# Atodiad: Data Amrywiaeth

1. Dangosodd ystadegau Amrywiaeth Farnwrol 2025 y patrymau amrywiaeth canlynol ar 1 Ebrill 2025:[1]
   a. Roedd 57% o ynadon yn fenywod, gan nodi cynnydd o 5 pwynt canran o'i gymharu â 2014. Mae hyn 6 phwynt canran yn uwch na chyfran menywod a merched yn y boblogaeth gyffredinol.[2]
   b. Roedd 14% o ynadon o gefndir lleiafrifoedd ethnig, sef cynnydd o 5 pwynt canran ers 2014, pan ddatganodd 9% o ynadon eu bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn 5 phwynt canran yn is na'r boblogaeth gyffredinol.[3] Ar 1 Ebrill 2025, hunanddatganodd 7% o ynadon eu bod yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig (2.3 pwynt canran yn is na chyfran y boblogaeth gyffredinol a hunanddatganodd eu bod yn Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig)[4], ac roedd 4% wedi hunanddatgan eu bod yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig (yr un canran â'r boblogaeth gyffredinol a hunanddatganodd eu bod yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd).[5]
   c. Roedd 81% o ynadon mewn swydd ar 1 Ebrill 2025 yn 50 oed neu'n hŷn, tra roedd 55% yn 60 oed neu'n hŷn (29 pwynt canran yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr).[6]
   d. Roedd 14% o'r ynadaeth fenywaidd o gefndir lleiafrifoedd ethnig; mae hyn 4 pwynt canran yn is na'r boblogaeth fenywaidd gyffredinol.[7]. Ar 1 Ebrill 2025, roedd 12% o'r ynadaeth 50 oed a hŷn yn ynadon o gefndir lleiafrifoedd ethnig (2

---

1 Ystadegau Amrywiaeth y Farnwriaeth 2024, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://www.gov.uk/government/statistics/diversity-of-the-judiciary-2024-statistics/diversity-of-the-judiciary-legal-professions-new-appointments-and-current-post-holders-2024-statistics

2 Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd menywod a merched yn cyfrif am 30.4 miliwn (51.0%) o boblogaeth Cymru a Lloegr. Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

3 Mae'r Cyfrifiad yn defnyddio categorïau gwahanol i'r rhai a ddefnyddir yn ystadegau amrywiaeth y farnwriaeth. Oni nodir fel arall, rydym wedi defnyddio'r categori "nad ydynt yn wyn" fel yr hyn sy'n cyfateb i "leiafrif ethnig" yn nata amrywiaeth y farnwriaeth. Yn ôl Cyfrifiad 2021, amcangyfrifwyd bod 18.3% o boblogaeth Cymru a Lloegr wedi hunanddatgan eu bod "ddim yn wyn", gan gynnwys y rhai a nododd eu hunain fel: Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig; Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd; grwpiau ethnig cymysg neu luosog; neu grŵp ethnig "arall". Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

4 Yn ôl Cyfrifiad 2021, amcangyfrifwyd bod 9.3% o boblogaeth Cymru a Lloegr wedi hunanddatgan eu bod yn Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig. Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

5 Yn ôl Cyfrifiad 2021, amcangyfrifwyd bod 4% o boblogaeth Cymru a Lloegr wedi hunanddatgan eu bod yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd. Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

6 Yn ôl Cyfrifiad 2021, amcangyfrifwyd bod 24.4% o boblogaeth Cymru a Lloegr yn 60 oed neu'n hŷn. Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

7 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/datasets/ethnicgroupbyageandsexinenglandandwales

bwynt canran yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol); ac roedd 10% o'r ynadaeth 60 oed a hŷn yn ynadon o gefndir lleiafrifoedd ethnig (2 bwynt canran yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol).

2. O'r 1,705 o ynadon o gefndir lleiafrifoedd ethnig, mae 72% yn 50 oed neu'n hŷn, ac mae 42% yn 60 oed neu'n hŷn. Nid oes data cynhwysfawr ar hyn o bryd i ddangos faint o ynadon sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig eraill. Y nodweddion gwarchodedig a gofnodir yn fwyaf cyson yn gronfa ddata e-HR y Swyddfa Farnwrol (sy'n cynnwys holl ddeiliaid swydd farnwrol presennol) yw rhyw, hil ac oedran. Gall ynadon hefyd hunanddatgan anabledd ar e-HR. Mae ystadegau amrywiaeth farnwrol 2025, am y tro cyntaf, wedi cyhoeddi ystadegau ar y nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, nid yw cyfraddau datgan eto'n cyrraedd y trothwy ar gyfer cyhoeddi cyfrannau cadarn ar gyfer cymharu, yn unol â Pholisi Ystadegau Swyddogol a'r safonau proffesiynol a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.[8][9]

3. Gan fod cyfran uwch o ynadon yn fenywod nag yn y boblogaeth gyffredinol, ac o ystyried bod cyfrifoldebau gofalu yn fwy cyffredin ymhlith menywod yn y boblogaeth gyffredinol, rydym felly'n rhagdybio bod ynadon yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu na'r boblogaeth gyffredinol.[10] Ar Ebrill 2025, roedd 46% o ynadon mewn swydd yn fenywod 50 oed neu'n hŷn, ac roedd 30% yn fenywod 60 oed neu'n hŷn.[11] Mae menywod yn llawer mwy tebygol o ddarparu gofal di-dâl na dynion ym mhob grŵp oedran hyd at 75 i 79 oed, gyda'r grwpiau oedran hŷn yn arbennig yn darparu'r nifer uchaf o oriau gofal di-dâl yr wythnos.[12] Felly, mae ynadon benywaidd hŷn yn debygol iawn o fod â chyfrifoldebau gofal, o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

4. Ar hyn o bryd, nid oes data canolog ar nodweddion gwarchodedig yr ynadon sy'n dal rolau arweinyddiaeth a ystyrir yn ein cynigion ym mhennod pump, nac ar yr ynadon sy'n eistedd fel aelodau TAAAC, a allai gael eu heffeithio gan y cynigion TAAAC ym mhennod chwech. Felly, nid ydym yn gwybod a yw'r rhai yn y swyddi hyn, a'r rhai sy'n ymgeisio amdanynt, yn fwy tebygol o feddu ar nodweddion gwarchodedig na'r boblogaeth gyffredinol.

5. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gasglu a chyhoeddi data demograffig mwy manwl ar yr ynadaeth, gan gynnwys ar amrywiaeth ceisiadau a phenodiadau. Mae

---

8 Polisi Ystadegau Swyddogol – Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (statisticsauthority.gov.uk)

9 Cod Ymarfer Ystadegau (statisticsauthority.gov.uk)

10 Arolwg Adnoddau Teulu: blwyddyn ariannol 2020 t 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

11 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/64fae71b1886eb000d976fe6/2023_JDS_tables.ods, tabl 3.7

12 Unpaid care by age, sex and deprivation, England and Wales – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) Yn Lloegr, roedd y ganran uchaf o ofalwyr di-dâl ymhlith unigolion benywaidd rhwng 55 a 59 oed (19.9%) ac ymhlith unigolion gwrywaidd rhwng 60 a 64 oed (13.05%). Yng Nghymru, roedd y ganran uchaf o ofalwyr di-dâl ymhlith unigolion benywaidd rhwng 55 a 59 oed (21.9%) ac ymhlith unigolion gwrywaidd rhwng 55 a 64 oed (15.0%).

hyn yn cael ei gasglu i sicrhau ein bod yn targedu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein hymdrechion i recriwtio mwy o ynadon. Fodd bynnag, nid oes digon o ddata eto i ddod i gasgliadau dibynadwy ynghylch cyfran yr ymgeiswyr a'r ynadon a benodwyd yn ddiweddar sydd â nodweddion gwarchodedig, na'u cynnydd drwy'r broses recriwtio.

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint sydd dan sylw